Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

Newyddion Dysgu Cymraeg

Learn Welsh Latest

Haf

Summer 2019

Mwynhau dysgu'r Gymraeg - canlyniadau cadarnhaol 'Dweud eich Dweud'

Mae canlyniadau holiadur cenedlaethol cyntaf y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, 'Dweud eich Dweud', a ddenodd bron 4,000 o ymatebion, yn dangos bod ein dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyrsiau a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Dywedodd 95% o'r ymatebwyr eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg a nododd 85% eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth siarad Cymraeg. Dywedodd 87% eu bod yn cael profiad dysgu sy'n dda neu'n dda iawn, a dywedodd 84% eu bod yn defnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Bydd y Ganolfan yn defnyddio'r canlyniadau fel rhan o'i strwythur ansawdd, i fonitro cynnydd ac adnabod gwelliannau. Bydd yr holiadur yn cael ei gynnal yn flynyddol.

Enjoy learning Welsh – positive 'Have your Say' results

The results of the first ever national questionnaire organised by the National Centre for Learning Welsh, 'Have your Say', which attracted almost 4,000 responses, show that our learners appreciate the courses and opportunities available to them.

Almost all of those who completed the questionnaire – 95% - said that they enjoyed learning Welsh and 85% said they felt more confident speaking Welsh. 87% said that they had a good or very good experience while learning Welsh, and 84% stated that they were using Welsh outside the classroom.

The Centre will use the results as part of its quality programme, to monitor progress and identify improvements. The questionnaire will be held annually.

Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019

Bydd y Ganolfan yn cynnal sawl digwyddiad yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, yn Llanrwst, rhwng 3-10 Awst. Mae croeso i chi ymuno â ni a'n partneriaid ar y dyddiadau isod ym mhabell Shw'mae Su'mae ar y maes:

Dydd Sadwrn, 3 Awst, 2.00pm Pabell Shw'mae/Su'mae
Rownd derfynol Y Cwis Mawr, cwis i ddysgwyr y Ganolfan.

Dydd Llun, 5 Awst, 11.00am Pabell Shw'mae/Su'mae
Panel drafod cynllun 'Cymraeg Gwaith' Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dydd Mawrth, 6 Awst, 10.00am Pabell Shw'mae/Su'mae
Lansiad 'Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg' BBC Radio Cymru.

Dydd Mawrth, 6 Awst, 2.00pm Pabell Shw'mae/Su'mae
Lansiad cyrsiau Dysgu Cymraeg newydd, gan gynnwys y cwrs Mynediad i ddechreuwyr.

Dydd Sadwrn, 10 Awst, 1.00pm Pabell Shw'mae/Su'mae
Gweithdy 'Geiriau'r Gymuned' ar y cyd â Stonewall.

National Eisteddfod of Wales, Conwy County 2019

The Centre will hold several events during the National Eisteddfod in Llanrwst, Conwy County between 3-10 August. All are welcome to join us and our partners at the Shw'mae Su'mae learners' pavilion on the following dates:

Saturday, 3 August, 2.00pm Shw'mae/Su'mae
Final round of 'Y Cwis Mawr', the Centre's quiz for its learners.

Monday, 5 August, 11.00am Shw'mae/Su'mae
Discussion panel 'Work Welsh' Social Care Wales.

Tuesday, 6 August, 10.00am Shw'mae/Su'mae
An event to launch a week's celebration of learning Welsh on BBC Radio Cymru.

Tuesday, 6 August, 2.00pm Shw'mae/Su'mae
The launch of new Welsh courses, including the Entry level course for beginners.

Saturday, 10 August, 1.00pm Shw'mae/Su'mae
Workshop in conjunction with Stonewall – 'Community Words.'

Ymgyrch recriwtio'r haf

'Codi hyder' yw thema ymgyrch recriwtio'r Ganolfan dros yr haf. Mae ymchwil y Ganolfan yn dangos bod pobl eisiau magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned – dyma'r sail ar gyfer yr ymgyrch, sy'n cynnwys tair hysbyseb fideo mewn lleoliadau cymunedol: mabolgampau ysgol; caffi a gig cerddoriaeth.

Mae'r Ganolfan hefyd yn ymwybodol bod hyder yn chwarae rôl hollbwysig yn y maes addysg oedolion yn gyffredinol – weithiau mae angen hyder i gerdded trwy ddrws yr ystafell ddosbarth yn y lle cyntaf; hyder i fentro dysgu pwnc newydd a hyder i ddal ati. Mae dysgu Cymraeg yn gallu codi hyder dysgwyr yn gyffredinol.

Mae hysbysebion teledu, posteri mawr a gweithgareddau Facebook yn rhan o'r ymgyrch a gallwch ddod o hyd i gwrs Dysgu Cymraeg unrhyw le yng Nghymru, a chofrestru a thalu ar-lein, ar wefan y Ganolfan, dysgucymraeg.cymru

Summer recruitment campaign

The theme of the Centre's recruitment campaign over the summer is 'confidence'. Research undertaken by the Centre shows that people are eager to gain confidence to use Welsh in their local communities - this has inspired the campaign, which features three video advertisements set in different locations within the community: a school sports day, café and a music gig.

The Centre is also aware that confidence plays a vital role within adult education in general - sometimes it takes confidence to walk through the classroom door for the first time; confidence to embark on learning a new subject and confidence to continue learning. Following a Learn Welsh course can build learners' confidence in general.

Television adverts, large posters and Facebook activities are part of the campaign. It's possible to find a Learn Welsh course anywhere in Wales, register and pay online, on the Centre's website, learnwelsh.cymru

Adnoddau newydd

Bydd cwrs Mynediad newydd ar gyfer dechreuwyr yn cael ei ddysgu ar draws Cymru o fis Medi ymlaen ac mae'r gwaith o lunio cyrsiau cenedlaethol ar lefelau rhuglder eraill yn parhau. Ceir pob math o adnoddau i gyd-fynd â phob cwrs: llyfr a channoedd o adnoddau digidol i'r dysgwr, canllawiau a blychau adnoddau proffesiynol i'r tiwtoriaid.

New resources

A new Entry level course for beginners will be taught throughout Wales from September onwards and the task of creating national courses for other Learn Welsh levels is continuing. There are various resources available to support each course: a textbook and hundreds of digital resources for the learner, with guidelines and professional resource boxes for tutors.

Cynllun Camau

Lansiwyd y cynllun Camau yn Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan. Dyma gynllun hyfforddi newydd sydd wedi'i deilwra ar gyfer y sector addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar. Mae'n cynnwys cyrsiau wyneb yn wyneb, a chwrs ymwybyddiaeth ar-lein.

Yn y llun uchod, o'r chwith i'r dde, mae Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr y Ganolfan, Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, a Dona Lewis, Dirprwy Brif Weithredwr y Ganolfan.

Camau programme

The Centre's 'Camau' (the Welsh word for 'steps') programme was launched by Eluned Morgan, the Minister for International Relations and the Welsh Language at the Urdd National Eisteddfod in Cardiff. This is a new training programme which has been tailored especially for the early years education and childcare sector. It includes face-to-face courses, and an online awareness course.

Pictured above, from left to right, are Efa Gruffudd Jones, the Centre's Chief Executive, Eluned Morgan, Minister for International Relations and the Welsh Language, and Dona Lewis, the Centre's Deputy Chief Executive.

Cyrsiau ar-lein newydd

Mae'r Ganolfan wedi cyhoeddi cwrs ar-lein newydd ar lefel gloywi iaith fel rhan o'r cynllun 'Cymraeg Gwaith.' Mae'r cwrs 10-awr ar gyfer gweithwyr sydd eisoes yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond sydd eisiau datblygu eu sgiliau a'u hyder wrth ysgrifennu.

Mae'r Ganolfan hefyd wedi llunio cwrs ar-lein ar gyfer Sefydliad y Merched. Mae'r cwrs yn ymarferol o ran ei natur a'i nod yw helpu aelodau i ddefnyddio Cymraeg bob dydd yn gyflym. Bydd y cwrs ar gael i aelodau ar draws 600 o ganghennau'r sefydliad yng Nghymru, a thu hwnt.

New online courses

The Centre has published a new online course for proficient Welsh learners as part of the 'Work Welsh' programme. The 10-hour course is designed for those who already work through the medium of Welsh but would like to further develop their written Welsh skills.

The Centre has also developed an online course for the Federation of Women's Institutes – Wales. The course is practical in nature and geared to help members to quickly assimilate everyday Welsh. The course will be made available to members across Wales' 600 WI branches, and members outside Wales.

Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru

Bydd BBC Radio Cymru yn cynnal wythnos i ddathlu Dysgu Cymraeg yn ystod mis Hydref 2019, i gyd-fynd â Diwrnod Shw'mae Su'mae. Bydd eitemau am ddysgwyr ac ar gyfer dysgwyr, yn ogystal â chyfraniadau gan ddysgwyr ar draws yr amserlen. Bydd y Ganolfan yn cydweithio gyda Radio Cymru i ddod o hyd i straeon diddorol ac i hyrwyddo'r wythnos.

Radio Cymru - A week of celebrating learning Welsh

There will be a week of celebrating learning Welsh on BBC Radio Cymru during October 2019, to coincide with Diwrnod Shw'mae Su'mae, which celebrates speaking Welsh. Items about learners and for learners will be broadcast throughout the week; there will also be contributions by Welsh learners. The Centre will work in partnership with Radio Cymru to highlight interesting stories and promote the week.